

Arfer orau

Ysgol y Foryd

Nifer y disgyblion: 237

Ystod oedran: 3 - 7 oed

Dyddiad arolygiad Estyn: Rhagfyr 2013



Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales



Maes arfer sy'n arwain y sector a nodwyd yn ystod yr arolygiad ac sy'n berthnasol i ddangosydd ansawdd penodol:

Cwestiynau Allweddol: 1. Deilliannau

Dangosydd Ansawdd: 1.1 Safonau

Agwedd: 1.1.2 safonau grwpiau o ddysgwyr

Cyd-destun a chefnidir i arfer sy'n arwain y sector:

Mae Ysgol y Foryd wedi'i lleoli ym Mae Cinmel yng Nghonwy ac yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 7 oed. Mae 237 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd, ac maent wedi'u trefnu yn wyth dosbarth. Mae'r rhain yn cynnwys 59 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Mae tua 42% ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac mae 49% ohonynt ar y gofrestr disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan fwyafrif o ddisgyblion anawsterau lleferydd neu anghenion a heriau datblygiadol eraill pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Mae maint carfanau a lefel byrhoedledd (sef 25% fesul blwyddyn o boblogaeth yr ysgol yn nodweddiadol) yn golygu bod cyfathrebu agos gyda rhieni ac asiantaethau eraill yn hanfodol i alluogi cymorth cynnar ar gyfer teuluoedd ac ymyriadau priodol ar gyfer disgyblion. Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf,

nid yw llawer o ddisgyblion meithrin wedi cyflawni Deilliant 1 erbyn canol tymor yr Hydref ac felly rhoddwyd offeryn asesu camau bach ar waith. Mae hyn wedi meintoli bod lefel datblygiad dros hanner o'n disgyblion yn is na'r hyn a fyddai'n ddisgwyledig fel arfer pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Developing the partnership with parents; its impact on pupil standards and tackling disadvantage.

Datblygu'r bartneriaeth gyda rhieni; ei heffaith ar safonau disgyblion a mynd i'r afael â difreintedd.

Yn ystod y tymor yn dilyn yr arolygiad yn 2007, fe wnaeth dros 25% o'r garfan fawr a byrhoedlog ym Mlwyddyn 2 ddangos ymddygiadau heriol. Yn Chwefror 2008, sefydlwyd dosbarth ymddygiad. Roedd datblygu partneriaeth agos gyda rhieni yn allweddol i'w lwyddiant. Roedd y strategaeth yn allweddol wrth arwain datblygu gwaith meithrin a chyswllt teuluol. Mae'r mentrau hyn wedi codi safonau disgyblion yn sylweddol.

Natur strategaeth neu weithgaredd a nodwyd yn arfer sy'n arwain y sector:

- Yn 2011, cynhaliwyd Diwrnod Gweledigaeth Ysgol cymunedol yn cynnwys rhieni, a lluniwyd arwyddair a gweledigaeth yr ysgol, sef: Breuddwydio, Credu, Llwyddo, Gyda'n Gilydd; i godi dyheadau disgyblion.
- Mae Gwerthoedd y Foryd, a ddyfeisiwyd gan ddisgyblion a staff, yn atgyfnerthu ymddygiad a gwaith pawb yn yr ysgol. Mae staff yn defnyddio'r rhain gyda rhieni i gynorthwyo â dulliau gartref. Gan eu bod yn cael eu cyfleu mewn ffyrdd y mae'r disgyblion yn eu deall, mae bron pob un o'r

Dechreuodd saith aelod presennol o staff yr ysgol ar eu profiadau 'dychwelyd i addysg' fel rhieni'n mynychu ein cyrsiau.

disgyblion yn eu gwybod ar eu cof ac yn eu rhannu.

- Caiff Proffiliau Asesu a phecynnau ymyrraeth ar gyfer y disgyblion meithrin newydd eu dechrau cyn i ddisgyblion ddechrau yn yr ysgol trwy gysylltu ag ymwelwyr iechyd, cylchoedd chwarae a rhieni. Mae ymweliadau cartref cyn derbyn y disgyblion wedi bod yn effeithiol o ran asesu a chynllunio ar gyfer eu gofynion disgyblion.
- Nodir tua 20% o'n disgyblion bob blwyddyn ar gyfer ymyrraeth annog ac fe gânt eu rheoli mewn grwpiau dosbarth gan arweinwyr anogaeth sy'n cysylltu'n agos â rhieni. Mae cynlluniau anogaeth yn mynd i'r afael â rhwystrau posibl rhag dysgu fel anghenion personol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion.
- Caiff rhieni eu hannog i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol. Sefydlwyd Fforwm Rhieni sydd wedi annog rhieni i arwain a chefnogi llawer o agweddau ar Wella Ysgol. Mae 'Cynrychiolwyr Rhieni' yn annog rhieni eraill. Mae ystod o weithgareddau allgyrsiol sy'n cynnwys 'Relax Kids', Technoleg Gwybodaeth, Pyramid a Chlybiau Coginio wedi cynnwys rhieni hefyd.
- Mae cyrsiau teuluol ar gael, ac fe gaiff rhai ohonynt eu hachredu gan y coleg. Mae tua hanner o'r rhieni sy'n cymryd rhan ynddynt wedi mynd ymlaen i ddilyn cyrsiau eraill. Dechreuodd saith aelod presennol o staff yr ysgol ar eu profiadau 'dychwelyd i addysg' fel rhieni'n mynychu ein cyrsiau.
- Mae Swyddog Cyswllt â Theuluoedd amser llawn yr ysgol yn gweithio gyda rhieni i wella presenoldeb a lleihau rhwystrau'r pethau sydd o bosibl yn rhwystro disgyblion rhag dysgu. Mae ei rôl yn galluogi ac yn annog cysylltiadau rhwng rhieni ac asiantaethau eraill. Mae wedi datblygu rhaglenni ymddygiad ar gyfer rhieni gartref ac wedi annog rhieni i gymryd rhan yn yr ysgol. Mae ei phresenoldeb ar yr iard ar ddechrau'r diwrnod wedi bod yn effeithiol o ran galluogi plant i ymgynffwrdd dda wrth iddynt gyrraedd yr ysgol, waeth beth yw eu hamgylchiadau allanol, a chymryd rhan mewn gwersi neu weithgareddau anogaeth

yn briodol.

Effaith mae'r gwaith hwn wedi'i chael ar ddarpariaeth a safonau dysgwyr:

- Yn ystod y tair blynedd diwethaf, enillodd bron pob disgybl o leiaf bedwar o ddeilliannau cynnydd yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Cyflawnir deilliannau disgwylidig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen gan bron pob disgybl, ac nid oes bwlch sylweddol mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim. Er y bu cynnydd cyson mewn difreintedd yn y pedair blynedd diwethaf, mae safonau wedi gwella o ran cyrhaeddiad a lles disgyblion.
- Mae bron pob disgybl sydd wedi mynychu cyrsiau rhieni wedi gwella hunan-barch ac mae hyn wedi bod yn amlwg o ystod o asesiadau perthnasol. Mae holiaduron bron pob un o'r rhieni yn dangos mwynhad a hyder cynyddol mewn cynorthwyo eu plant.

Mae gwaith grŵp clwstwr yr ysgol wedi galluogi rhannu arfer dda o ran partneriaethau â rhieni. Mae ein hysgol wedi dechrau'r Fforwm Cyswllt â Theuluoedd yn ddiweddar, ac mae ein Swyddog Cyswllt â Theuluoedd yn ei gynnal bob hanner tymor. Mae staff mewn rolau tebyg o ardaloedd eraill ac uwch arweinwyr o ddeg ysgol o leiaf wedi ymweld â'n hysgol i weld y mentrau rydym wedi eu rhoi ar waith a'u trafod. Mae pob un ohonynt wedi dweud eu bod wedi gallu defnyddio rhywfaint o'r arfer dda a rannwyd, gan gynnwys strategaethau presenoldeb, gweithio amlasiantaethol a rhaglen 'Relax Kids' yn eu lleoliadau eu hunain.